

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cynllun Ieithoedd Swyddogol: Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol

Gorffennaf 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cynllun Ieithoedd Swyddogol:
Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol

Gorffennaf 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynnwys

Rhagair	1
Cyflwyniad	3
01. Gwasanaethau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth.....	5
02. Gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru.....	10
03. Gwasanaethau ar gyfer Staff y Cynulliad	12
04. Monitro ac Adrodd.....	14
05. Blaenoriaethau ar gyfer 2013-14	16
06. Blaenoriaethau a thargedau ar gyfer 2014-15.....	18
07. Blaenoriaethau cyfunol ar gyfer 2014-15	20



AGORWYD GAN EI MAWRHYDOL ENHINES
OPENED BY HER MAJESTY THE QUEEN 13-2006

Rhagair



Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol cyntaf ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Cynulliad bob amser wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Fodd bynnag, yn sgil pasio Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 gosodwyd sail statudol i'r egwyddor hon.

Ers mis Medi 2013, rydym wedi gweld gwelliannau pellach yn y ddarpariaeth o gymorth arloesol sydd wedi'i deilwra i Aelodau'r Cynulliad gan eu galluogi i weithio'n effeithiol yn y naill iaith neu'r llall neu'r ddwy iaith swyddogol. Rydym yn bwriadu gwneud mwy ac yn y dyfodol byddwn yn gweld gwelliannau pellach i'r cymorth dwyieithog a ddarparwn.

Mae ein hymrwymiad i fuddsoddi mewn technoleg i drawsnewid y ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog wedi arwain at gydnabyddiaeth fyd-eang i'r Cynulliad drwy ein partneriaeth gyda Microsoft i lansio cyfleuster Microsoft Translator ar gyfer y Gymraeg.

Rydym hefyd yn cydnabod bod cyflawni ein huchelgais i gael ein cydnabod fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog yn golygu mwy na chyfieithu geiriau yn unig. Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio ein hadnoddau yn ddoeth i ddarparu'r gwasanaethau dwyieithog gorau drwy holl feysydd gwaith y Cynulliad i sicrhau y gall pawb sy'n ymgysylltu â ni wneud hynny yn y naill iaith swyddogol neu'r llall. Mae dwyieithrwydd yn rhan annatod o bob gwasanaeth. Nid yw darparu gwasanaethau dwyieithog yn golygu dyrannu cyllideb benodol yn unig mwyach, ond cânt eu prif ffrydio ar draws pob cyllideb.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae llawer o gynnydd wedi'i wneud fel y nodir yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae angen i ni gyflawni mwy. Mae'r Cynllun wedi ein galluogi i feddwl yn wahanol am y ffordd rydym yn gwneud pethau, ac i ymateb i anghenion cenedl ddwyieithog. Rhaid i ni nawr adeiladu ar y gwaith da hwn, ac ymdrechu i wireddu ein huchelgais o fod yn sefydliad dwyieithog rhagorol.

Rhodri Glyn Thomas

Comisiynydd sy'n gyfrifol am swyddogaethau a pholisi Ieithoedd Swyddogol y Comisiwn



Cyflwyniad

Wrth gyhoeddi'r Cynllun leithoedd Swyddogol ym mis Gorffennaf 2013, uchelgais Comisiwn y Cynulliad oedd "darparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol ac i gael ein cydnabod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog". Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith wedi cael ei wneud i ymgorffori'r Cynllun ar draws y sefydliad, annog brwdfrydedd o'r newydd, a sicrhau newid mewn diwylliant ac ethos. Mae hyn, yn ei dro, wedi galluogi'r Comisiwn i gyflawni gwelliannau a chyflwyno arloesedd yn ei wasanaethau dwyieithog.

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi bod yn glir o ran ei ymrwymiad i'r Cynllun, i arwain drwy esiampl ac i annog staff ym mhob maes i weithio'n ddwyieithog. Mae gofynion y Cynllun yn rhan annatod o Gynlluniau Gwasanaeth unigol.

Mae diwylliant dwyieithog y Cynulliad wedi parhau i ddatblygu ers ei sefydlu ym 1999. Gan adeiladu ar gynlluniau blaenorol, rydym bellach yn cydymffurfio'n dda â'r Cynllun leithoedd Swyddogol ar draws y sefydliad.

Bydd cynnal y momentwm a'r brwdfrydedd dros arloesedd a newid yn flaenoriaeth ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'r twf, yr ymrwymiad a'r newid mewn diwylliant eisoes yn cael ei ddangos drwy:

- gynydd yn y nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant iaith;
- mwy o ddefnydd o negeseuon dwyieithog sy'n caniatáu i ddarllenwyr ddewis eu dewis iaith;
- cylchgrawn staff gwbl ddwyieithog;
- mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy gynydd yn y ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd; a
- gwelliannau i'n gwasanaethau dwyieithog i hwyluso Aelodau'r Cynulliad a staff i weithio naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Rydym yn parhau i ymrwymo i gyflawni ein nodau hirdymor sef:

- darparu mwy o wasanaethau dwyieithog rhagorol;
- gwerthfawrogi ein staff am yr ymrwymiad y maent yn ei gynnig i'r Cynulliad a'u harbenigedd proffesiynol a seneddol; a
- rhannu ein profiadau a'n gwybodaeth am weithio'n ddwyieithog gyda sefydliadau eraill.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o'r gwelliannau sydd eisoes wedi'u gwneud ac yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella ein gwasanaethau dwyieithog yn y dyfodol.



Will Lewis (Microsoft), Rhodri Glyn Thomas AC (Comisiynydd y Cynulliad), y Fonesig Rosemary Butler AC (Llywydd y Cynulliad) a Geraint Wyn Parry (Prif Weithredwr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru).



Lansiwyd cyfleuster byd-eang y Gymraeg ar gyfer Microsoft Translator yn y Senedd ar 21 Chwefror 2014, sy'n galluogi defnyddwyr Microsoft ledled y byd i gyfieithu testun i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg.

01. Gwasanaethau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

Paratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor

Ers gweithredu'r Cynllun, cymerwyd camau sylweddol i sicrhau y dilynwyd y safonau a nodwyd yn y Cynllun, lle bo modd, er mwyn darparu gwasanaeth gwell i gefnogi Aelodau gyda'u gwaith mewn pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn. Darperir pob dogfen ffurfiol ar yr un pryd yn y ddwy iaith swyddogol, gan gynnwys:

- agendâu a phapurau ategol;
- Biliau a chrynodeb o Filiau;
- Canllawiau Cyflym a Diweddariadau Polisi'r UE; a
- phapurau ar gyfer dadleuon y Cyfarfod Llawn.

Geirfaoedd

Mewn ymateb i adborth gan Aelodau'r Cynulliad, rydym wedi datblygu cyfres o eirfaoedd o dermau ac ymadroddion technegol Cymraeg ar gyfer Biliau ac ymchwiliadau pwyllgor sydd hefyd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Mae hyn yn galluogi Aelodau'r Cynulliad i drafod pynciau llai cyfarwydd yn eu dewis iaith.

"Mae'r geirfaoedd yn gymorth mawr i mi wrth drafod pynciau technegol anghyfarwydd. Maent yn ddefnyddiol iawn ar ddechrau ymchwiliad pwyllgor, neu wrth baratoi ar gyfer dadleuon ar Filiau yn y Cyfarfod Llawn pan nad wyf wedi bod yn aelod o'r pwyllgor sydd wedi eu trafod."

Elin Jones AC

Astudiaeth Achos - Cyfieithu Peirianyddol

Rydym yn parhau i wneud defnydd o dechnoleg i wella gwasanaethau dwyieithog a chefnogi'r defnydd o'r ddwy iaith swyddogol. Lanswyd cyfleuster byd-eang y Gymraeg ar gyfer Microsoft Translator yn y Senedd ar 21 Chwefror 2014, sy'n galluogi defnyddwyr Microsoft ledled y byd i gyfieithu testun i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg. Cyrhaeddodd deunydd cyhoeddusrwydd y digwyddiad lansio hyd at 5 miliwn o bobl ledled y byd, gan hyrwyddo nid yn unig y Gymraeg ond y Cynulliad Cenedlaethol a'i bartneriaeth â Microsoft hefyd.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau allweddol gan eu gwahodd i ddarparu data dwyieithog i ni er mwyn i ni eu bwydo i'r system er mwyn gwella'r ansawdd. Drwy ddefnyddio cyfleuster Cymraeg Microsoft Translator, mae'r Cynulliad yn gallu ymgysylltu'n fwy effeithlon â'r cyhoedd, gan fod staff yn gallu prosesu gohebiaeth a anfonir yn Gymraeg, ac ymateb iddi, yn gyflymach ac yn fwy effeithiol, yn enwedig yng nghyd-destun y cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu gwib anffurfiol eraill.



Wyższa Szkoła
Informatyki
i Zarządzania
w
Poznaniu

11:19



Adolygiad y Comisiwn o Gymorth i Bwyllgorau

Mae gwaith ar adolygiad ehangach Gwasanaethau Pwyllgorau a datblygiadau mewn technoleg iaith wedi annog arloesedd o ran darparu a chomisiynu deunyddiau i gefnogi Aelodau'r Cynulliad yn eu gwaith gyda'r Cyfarfod Llawn ac mewn pwyllgorau. Nid ydym wedi gallu darparu deunydd briffio dwyieithog llawn i Aelodau'r Cynulliad yn y gorffennol, ond mae cynlluniau peilot a oedd yn edrych ar gomisiynu, drafftio a defnyddio technoleg wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol iawn.

"Roedd yr arfer blaenorol o ddarparu cwestiynau dwyieithog, ond nid y briff cyfan, yn golygu y byddai'r rhan fwyaf o fy ngwaith paratoi cyn y pwyllgor yn cael ei wneud yn Saesneg. Fodd bynnag, yn dilyn y cynllun peilot llwyddiannus, rwyf bellach yn cael fy nogfennau briffio pwyllgor yn fy newis iaith, sy'n golygu y gallaf weithio'n fwy effeithlon. Gobeithio bydd y datblygiad hwn yn cael ei brif ffrydio ar draws gwaith yr holl bwyllgorau maes o law".

Alun Fred Jones AC

Astudiaeth achos – Briffio Dwyieithog

Drwy weithio gydag Aelodau i ddeall dewisiadau unigol yn well, mae ystod o ddarpariaeth wedi ei rhoi ar waith i gefnogi gweithio'n ddwyieithog, er enghraifft, darperir dogfennau briffio dwyieithog i aelodau o'r pwyllgorau canlynol:

– Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

– Y Pwyllgor Cyllid

– Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

– Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae hyn yn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad baratoi ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor yn eu dewis iaith, gan ei gwneud yn haws iddynt ddefnyddio eu dewis iaith yn y trafodion.

Mae gennym fwy i'w wneud i brif ffrydio'r gwaith o ddatblygu dogfennau briffio dwyieithog i helpu Aelodau gyda'u gwaith ac mae hyn wedi'i nodi fel blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Tystion

Anogir Aelodau'r Cynulliad, tystion a'r rhai sy'n cymryd rhan yn nhrefodion y Cynulliad i ddefnyddio eu dewis iaith yn y Cyfarfod Llawn ac mewn pwyllgorau. Mae cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ar gyfer holl drafodion y Cynulliad ac yn holl ddigwyddiadau swyddogol y Cynulliad. Mae tystion pwyllgorau bellach yn gwybod am natur ddwyieithog trafodion y Cynulliad, a chânt eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg os oes yn well ganddynt wneud hynny. Mae angen i ni sicrhau bod cadeiryddion pwyllgorau a'r timau clericio yn rhoi gwybod i'r holl dystion am natur ddwyieithog y sefydliad a'u bod yn gyfforddus yn defnyddio'r clustffonau.

Fideogynadledda

Rydym yn falch iawn o fod wedi gallu gweithredu gwelliannau technegol i'r system fideogynhadledd yn y Senedd, sy'n golygu y gallwn gynnal trafodion cwbl ddwyieithog ym mhob un o'r ystafelloedd pwyllgora am y tro cyntaf. Mae'r cyfleusterau newydd yn caniatáu i Aelodau sgwrsio â thystion mewn lleoliadau eraill a hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg gan sicrhau arbedion sylweddol o ran adnoddau gan nad oes angen darparu cyfieithu ar y pryd mewn lleoliadau eraill. Gwnaed gwelliannau technegol tebyg hefyd i gyfleusterau fideogynadledda mewn rhannau eraill o ystâd y Cynulliad.

Cofnod y Trafodion

Yng nghyfarfod Comisiwn y Cynulliad ym mis Mawrth 2014, cychwynnodd y Comisiwn adolygiad llawn o'r gwaith o lunio Cofnod y Trafodion. Mae'r Cofnod yn agwedd arwyddocaol iawn ar waith y Cynulliad a bydd sicrhau ei fod ar gael yn ddwyieithog ar wefan y Cynulliad yn parhau i fod yn bwysig.

Bydd yr adolygiad yn ymchwilio i gyfleoedd newydd er mwyn cynyddu diddordeb, ymgysylltiad a dealltwriaeth o waith y Cynulliad mewn byd llawn newid technegol cyflym. Ein gweledigaeth yw creu ffordd o ymgysylltu sy'n ymarferol ac sy'n deilwng o ddemocratiaeth ddigidol fodern. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i ni i gyflwyno newid strategol yn y ffordd yr ydym yn cynhyrchu'r Cofnod a bod yn fwy effeithlon. Defnyddir cyfieithu peiriannyddol i lunio drafft bras er mwyn helpu i lunio Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog a gyhoeddir ar wefan y Cynulliad o fewn pum diwrnod gwaith. Bydd yr adolygiad hefyd yn mynd i'r afael â sut y gallwn gyflymu'r broses o sicrhau bod Cofnod y Trafodion ar gael yn y ddwy iaith. Mae gwaith yn mynd rhagddo bellach ar adolygiad Comisiwn y Cynulliad, sydd yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae adolygiad rheolaidd o brosesau cynhyrchu a chyhoeddi trawsgrifiadau pwyllgor wedi arwain at newid sylweddol o ran amseroedd cyhoeddi. Erbyn hyn, caiff trawsgrifiadau drafft eu cyhoeddi o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod.

Ymateb i adborth Aelodau

Drwy adborth ar ein harolygon rheolaidd gan Aelodau, rydym wedi ymateb i geisiadau i'w gwneud yn haws i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws ystâd y Cynulliad a thu hwnt. Mae'r adborth hwn yn llywio ein blaenoriaethau ar gyfer gwell gwasanaethau dwyieithog, a chaiff ei adlewyrchu mewn gwahanol rannau o'r adroddiad hwn.

Mae Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff Comisiwn y Cynulliad sy'n siarad Cymraeg wedi cael bathodynau a chortynnau gwddf laith Gwaith. Mae'r adnoddau hyn yn golygu y gall pobl eraill adnabod siaradwyr Cymraeg yn rhwydd gan ei gwneud yn haws iddynt siarad yn eu dewis iaith.

"Mae'r adnoddau laith Gwaith wedi gwella'r ethos dwyieithog ar draws ystâd y Cynulliad. Ers i mi ddechrau gwisgo'r cortyn gwddf, rwyf wedi sylwi bod mwy o bobl yn dechrau sgwrs â mi yn Gymraeg, ac rwy'n gwerthfawrogi hynny'n fawr".

Aled Roberts AC



15:35

02. Gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru

Caiff pob achos o gyfathrebu ysgrifenedig ac ymgysylltu â'r cyhoedd ei wneud yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf. Caiff achosion o gyfathrebu dilynol eu gwneud yn newis iaith y rhai rydym yn cyfathrebu â nhw. Er mwyn hyrwyddo ethos dwyieithog y sefydliad:

- mae unrhyw gynnwys e-bost a wneir yn awtomatig, fel llofnodion a negeseuon allan o'r swyddfa, yn ddwyieithog;
- mae llofnodion awtomatig mewn e-bost yn cynnwys neges sy'n annog pobl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall;
- caiff pob deunydd cyhoeddusrwydd ei wneud yn ddwyieithog; ac
- anogir holl staff y Cynulliad i ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog er mwyn hyrwyddo diwylliant dwyieithog y sefydliad a'i gwneud yn haws i gyfathrebu yn y naill iaith neu'r llall.

Ymwelwyr


Rydym wedi gwella'r gallu i gyfarch y cyhoedd yn ddwyieithog, fel bod:

- gwasanaeth cwbl ddwyieithog yn cael ei ddarparu yn yr holl dderbynfeydd a phrif linellau cymorth y switsfwrdd;
- ymweliadau addysgol ar gael yn y ddwy iaith;
- teithiau o amgylch y Senedd, a drefnwyd ymlaen llaw neu ar y pryd, ar gael yn y ddwy iaith swyddogol ac mewn rhai ieithoedd eraill;
- drwy gyfuniad o ddysgu ffurfiol a chymorth gan gyfoedion, mae nifer cynyddol o'r tîm diogelwch yn hyderus ac yn gallu cyfarch yn ddwyieithog;
- hyfforddiant i staff dan gontract yng nghaffi'r Senedd i gyfarch yn ddwyieithog yn parhau er mwyn gwella cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall; a
- holl wasanaethau newydd i'r cyhoedd yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf.

Y Cynulliad ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Un o brif flaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad yw ymgysylltu â phobl Cymru, ac mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ddull pwysig er mwyn hwyluso hyn. Mae dewis iaith hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y ffordd rydym yn ymgysylltu.

- Mae gan bob un o Bwyllgorau'r Cynulliad a'r Gwasanaeth Ymchwil gyfrifon Twitter Cymraeg a Saesneg ac maent yn trydar yn y ddau gyfrif ar yr un pryd.



- Mae blog y Gwasanaeth Ymchwil, Pigion, yn cyhoeddi erthyglau cyfoes yn y ddwy iaith.
- Cynhelir gwe-sgyrsiau dwyieithog er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer ymchwiliadau pwyllgorau.
- Mae cyfrif Instagram y #Senedd yn cyhoeddi negeseuon yn ddwyieithog.

Wrth fonitro gwybodaeth o gyfryngau cymdeithasol y Cynulliad, awgrymir bod rhai llwyfannau yn fwy poblogaidd gyda grwpiau penodol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Defnyddir y wybodaeth hon i dargedu grwpiau penodol a chodi ymwybyddiaeth o faterion perthnasol, fel y bo'n briodol.

Fodd bynnag, wrth i ni ddatblygu'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol mewn digwyddiadau byw, megis cynadleddau, ymweliadau ac yn ystod ein trafodion, bydd angen i ni wella ein prosesau cynllunio i sicrhau eu bod yn ystyried y gofyniad i gyhoeddi negeseuon yn ddwyieithog ar bob achlysur.

Aelodau a'u Hetholwyr

Rydym wedi gwneud newidiadau sy'n ein galluogi i helpu Aelodau'r Cynulliad i ymgysylltu'n well â'u hetholwyr yn eu dewis iaith.

- Mae'r cyfleuster Microsoft Translator yn helpu pobl i ddeall negeseuon dwyieithog ac ymateb iddynt.
- Sefydlwyd gwasanaeth gwirio cyfieithu peirianyddol i roi sicrwydd i ddefnyddwyr bod testun wedi'i gyfieithu yn gywir ac yn briodol.
- Gall Aelodau'r Cynulliad drefnu cyfieithu ar y pryd at ddibenion etholaethol.

"Rwyf wedi sylwi ar wahaniaeth yn y gefnogaeth yr wyf i a fy staff cymorth yn ei chael er mwyn ymgysylltu â'm hetholwyr yn eu dewis iaith. Mae'r ddarpariaeth o gyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau etholaethol ac mewn grwpiau trawsbleidiol wedi gwella fy ngallu i weithio'n ddwyieithog yn fawr".

Keith Davies AC

03. Gwasanaethau ar gyfer Staff y Cynulliad

Mae holl gyfathrebu corfforaethol â staff y Comisiwn yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd i'r holl staff a negeseuon i'r holl staff. Anogir timau a gwasanaethau unigol i drafod eu dewisiadau iaith wrth gyfathrebu â'r tîm neu'r gwasanaeth cyfan. Mae gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer cyfarfodydd staff mewnol ar gais. Mewn achosion pan na chaiff gwybodaeth ei darparu'n ddwyieithog, dylai staff deimlo'n hyderus i ofyn am y wybodaeth a chânt eu hannog i wneud hynny. Mae timau a gwasanaethau unigol yn trafod ac yn ystyried sut y byddant yn cynnal cyfarfodydd ar gyfer timau cyfan ac yn dosbarthu gwybodaeth gan ddefnyddio cyfleusterau cyfieithu ar y pryd, cyfieithu peirianyddol a gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi. Gall aelodau unigol o staff gwblhau eu dogfennau rheoli perfformiad yn eu dewis iaith gyda rheolwyr llinell nad ydynt yn siarad Cymraeg a gall swyddogion cydlofnodi ddefnyddio'r cyfleuster cyfieithu peirianyddol i ddeall sylwadau a wnaed yn y Gymraeg.

Strategaeth Sgiliau Dwyieithog

Mae strategaeth sgiliau dwyieithog yn hanfodol er mwyn i ni wireddu ein huchelgais o gael ein cydnabod yn sefydliad rhagorol sy'n wirioneddol ddwyieithog. Mae'r strategaeth wrthi'n cael ei datblygu a bydd yn flaenoriaeth yn y flwyddyn i ddod. Bydd y strategaeth yn:

- cadarnhau ein nod o fod yn gyflogwr sy'n cefnogi ac yn annog pob aelod staff i feddu ar sgiliau neu eu datblygu yn y ddwy iaith swyddogol; a
- nodi sut y byddwn yn datblygu gweithlu sydd â'r sgiliau angenrheidiol i hwyluso amgylchedd lle caiff y Gymraeg ei defnyddio a'i chlywed.

Gwersi Cymraeg

Mae adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol o wersi Cymraeg wrthi'n cael ei gynnal. Datblygwyd y ddarpariaeth i gynnwys cyfleoedd mwy anffurfiol i ddysgu a defnyddio sgiliau iaith, fel sesiynau mentora, sesiynau galw heibio anffurfiol a chyswllt ar ôl gwersi er mwyn ymgorffori dysgu ac i annog dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg yn amlach. Rydym yn ymchwilio i wneud gwelliannau pellach.

Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith

Mae pob un o aelodau'r Bwrdd Rheoli wedi bod mewn sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ac wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r sesiynau. I gydnabod natur ddwyieithog y sefydliad ac i ategu ein dyheadau yn y Cynllun, mae rhaglen wedi'i theilwra o hyfforddiant ymwybyddiaeth gorfodol yn cael ei chyflwyno i bob aelod o staff. Bydd y rhan fwyaf o staff y Comisiwn wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith erbyn diwedd mis Gorffennaf 2014.

“Cefais fy synnu faint y gwnes i fwynhau'r sesiwn hyfforddi. Roeddwn i'n gwybod bod y Cynulliad yn eithaf dwyieithog yn barod, ond mae dysgu beth yw ystyr bod yn Gymro neu'n Gymraes i fy nghydweithwyr a sut y bydd ein Cynllun leithoedd Swyddogol yn ein helpu i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'n holl gwsmeriaid wedi newid fy safbwynt”.

Aelod o'r Tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau

Gwasanaethau Adnoddau Dynol

Caiff polisiau Adnoddau Dynol eu datblygu'n ddwyieithog ac mae'r holl bolisiau cyfredol wedi'u cyfieithu er mwyn galluogi staff i weithio yn eu dewis iaith. Mae system cyflogres newydd Adnoddau Dynol bellach ar waith ac mae'r fersiwn Gymraeg, a ddatblygwyd ar y cyd â'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi, yn cael ei phrofi, a bydd yn galluogi staff i ddefnyddio'r system yn y naill iaith neu'r llall.

Cynllun Prentisiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Lansiwyd ein cynllun peilot i brentisiaid yn 2012 gan hysbysebu pedair swydd, gydag un ohonynt yn swydd ddwyieithog. Mae'r aelod hwnnw o staff wedi cael ei phenodi i swydd barhaol yng Ngwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth. Mae swydd ddwyieithog benodedig yn y swyddfa yn y Gogledd ar gyfer swydd sy'n wynebu'r cyhoedd yn rhan o'r Cynllun Prentisiaeth dilynol hefyd. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i wella cyfleoedd i bobl ifanc, gan werthfawrogi eu sgiliau iaith ac annog y defnydd o'r sgiliau hynny yn eu gwaith bob dydd.



Prentisiaid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn derbyn tystysgrif yn cydnabod eu llwyddiant gan y Fonesig Rosemary Butler AC (Llywydd y Cynulliad), Sandy Mewies AC (Comisiynydd y Cynulliad) a Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad).

04. Monitro ac Adrodd

Mae pob gwasanaeth wedi penodi Cydgysylltydd Cynllun leithoedd Swyddogol i gynghori a chefnogi cydweithwyr pan fo angen, ac mae rhwydwaith y cydgysylltwyr wedi cyfarfod o leiaf unwaith bob chwarter i drafod y Cynllun a rôl y cydgysylltwyr. Mae'r rhwydwaith hefyd wedi chwarae rhan allweddol yn y broses o gyflwyno'r cyfleuster cyfieithu peiranyddol, gan weithredu fel hyrwyddwyr yn eu gwasanaethau. Er mwyn cefnogi gwaith y Rhwydwaith ac egluro'r disgwyliadau, lluniwyd disgrifiad swydd. Mae'n disgrifio'r gofynion arnynt o ran gweithredu, monitro a datblygu ymrwymadau yn y Cynllun ar gyfer eu gwasanaeth.

“Rwyf wedi sylwi ar newid yn y ffordd yr ydym yn ymdrin â gwasanaethau dwyieithog yn y tîm ers penodi Cydgysylltydd Cynllun leithoedd Swyddogol. Mae'r Cydgysylltydd wedi cynghori ynghylch ein dull o ofyn am dystiolaeth gan dystion ar gyfer ymchwiliadau pwyllgorau a sut i ddelio â'r dystiolaeth, ac mae wedi helpu i fagu hyder ein bod yn rhoi'r Cynllun ar waith yn gywir”.

Aelod o dîm Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth

Cydymffurfio

Datblygwyd gweithdrefnau anffurfiol ar gyfer ymdrin ag achosion o dorri'r cynllun a monitro cydymffurfiaeth eleni, gan roi'r cyfrifoldeb ar gydgysylltwyr unigol i gasglu a darparu gwybodaeth. Nodwyd rhai mân achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion y Cynllun yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- negeseuon allan-o'r-swyddfa anghywir;
- llofnodion awtomatig e-bost anghywir;
- staff y Comisiwn yn anfon negeseuon e-bost unieithog at holl Aelodau neu holl staff; a
- methiant i ddarparu arwyddion dros dro yn ddwyieithog.

Gwnaeth y cydgysylltwyr godi'r mater gyda'r aelodau perthnasol o staff er mwyn sicrhau bod y methiant yn cael ei gywiro ar unwaith.

Wrth i rôl y Cydgysylltwyr leithoedd Swyddogol a gofynion y Cynllun gael eu hymgorffori fwy ar draws y sefydliad, gobeithiwn y byddwn yn gweld llai o achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth i nodi ein disgwyliadau yn glir pan fydd gwasanaethau yn cael eu darparu drwy drydydd parti. Mae'r cynnydd a wnaed wrth ddarparu gwasanaeth dwyieithog yng nghaffi a siop y Senedd wedi'i amharu gan newid mewn personél a methodd y penodiad newydd i ddenu aelod o staff dwyieithog. Byddwn yn parhau i weithio gyda thrydydd partiön sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ein rhan, gan gynnwys contractwyr arlwy, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rhannau perthnasol y Cynllun. Bydd hyn yn cynnwys cymorth ieithyddol un i un a chyfleoedd chysgodi.

Mae gwaith ar broses fwy ffurfiol ar gyfer monitro cydymffurfio wrthi'n cael ei ddatblygu, a hynny fel blaenoriaeth. Bydd yn:

- adrodd am achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- nodi camau a gymerwyd i osgoi achosion o ddiffyg cydymffurfio sy'n digwydd dro ar ôl tro;
- asesu patrymau o broblemau y gallwn fynd i'r afael â nhw; a
- rhoi sicrwydd i Reolwyr, Comisiynwyr y Cynulliad a'r Cynulliad.

05. Blaenoriaethau ar gyfer 2013-14

Mae'r cynnydd a'r llwyddiannau a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn yn ystod y flwyddyn wedi bod yn arwyddocaol. Fodd bynnag, nid ydym wedi cyflawni rhai o'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer 2013-14 fel y nodir isod. Byddwn yn cymathu'r blaenoriaethau hyn â'r rhai a osodwyd ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith yn gyflymach.

Gwasanaethau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

Byddwn yn darparu bathodynau "Rwy'n dysgu Cymraeg" i Aelodau a'u staff cymorth ac yn cynllunio mentrau i annog Aelodau i ymarfer a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Targed gwreiddiol: erbyn Medi 2013.

Mae gwaith datblygu yn parhau i fynd rhagddo a byddwn yn ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth o ran y dylunio er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon.

Gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru

Byddwn yn datblygu'r lefel briodol o gymorth, arweiniad a hyfforddiant i staff i'w helpu i ymateb a/neu ddrafftio gohebiaeth yn Gymraeg, gan fanteisio ar arbenigedd y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi.

Targed gwreiddiol: Rhoi cynllun gweithredu ar waith erbyn mis Medi 2013.

Nid yw'r cynllun gweithredi wedi'i roi ar waith eto, ond mae datblygiadau o ran defnyddio cyfieithu peirianyddol wedi galluogi'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi i roi cymorth pellach i staff.

Byddwn yn cynyddu gallu'r tîm diogelwch i groesawu'r cyhoedd i ystâd y Cynulliad yn ddwyieithog.

Targed gwreiddiol: holl staff diogelwch i feddu ar sgiliau sylfaenol i gyfarch ymwelwyr yn ddwyieithog erbyn mis Rhagfyr 2013.

Mae'r hyfforddiant yn mynd rhagddo'n dda. Bydd gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu'r gallu i gyfarch yn ddwyieithog.

Byddwn yn cynyddu'r gallu i gynnig gwasanaethau dwyieithog yn y caffi a'r siop.

Targed gwreiddiol: sicrhau bod gan bob aelod o staff y caffi sgiliau dwyieithog i gyfarch cwsmeriaid erbyn mis Rhagfyr 2013.

Cynnydd da yn cael ei wneud, ond oherwydd trosiant staff ac aelod newydd o staff yn dechrau hyfforddiant, rydym yn parhau i weithio tuag at y targed hwn.

Gwasanaethau ar gyfer staff y Cynulliad

Byddwn yn darparu bathodynau "Rwy'n dysgu Cymraeg" i staff ac yn cynllunio mentrau i annog staff i ymarfer a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Targed gwreiddiol: erbyn Medi 2013.

Mae gwaith datblygu yn parhau i fynd rhagddo a byddwn yn ymgynghori â staff o ran y dylunio er mwyn sicrhau eu bod yn rhan o'r datblygiadau.

Gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog.

Targed gwreiddiol: ymgynghoriad gyda staff o fis Gorffennaf 2013 ar gyfer lansiad ym mis Medi.

Mae gwaith drafftio ac ymgynghori cychwynnol wedi dechrau. Mae angen gwneud gwaith pellach.

06. Blaenoriaethau a thargedau ar gyfer 2014-15

Gwasanaethau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

- Byddwn yn cymryd camau mwy rhagweithiol i ddeall anghenion iaith Aelodau'r Cynulliad a gweithio tuag at weithredu gwelliannau.
Targed: mis Gorffennaf 2015
- Byddwn yn integreiddio meddalwedd cyfieithu peirianyddol ac yn annog staff i'w defnyddio yn ehangach yn ein gwaith.
Targed: mis Medi 2014
- Byddwn yn parhau i ddilyn datblygiadau ym maes technoleg iaith, gan gynnwys technoleg cyfieithu a thechnoleg adnabod llais, ac yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau.
Targed: mis Gorffennaf 2015
- Byddwn yn cadw mewn cysylltiad â chanolfannau rhagoriaeth yng Nghymru i elwa ar y datblygiadau diweddaraf mewn technoleg iaith a chyfieithu.
Targed: mis Gorffennaf 2015
- Byddwn yn ystyried ac yn treialu modelau amgen i gynorthwyo Aelodau i weithio'n ddwyieithog yn y Cyfarfod Llawn, er mwyn gwella eu gallu i weithio yn eu dewis iaith.
Targed: o fis Medi 2014
- Byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r treialon o fodelau amgen i gynorthwyo Aelodau i weithio'n ddwyieithog mewn pwyllgorau a'r adolygiad o'r gefnogaeth a ddarperir i'r pwyllgorau i ddarparu dogfennau briffio sy'n ystyried dewisiadau Aelodau'r Cynulliad o ran iaith, fformat ac amseru.
Targed: adroddiad ar y cynnydd ym mis Gorffennaf 2015
- Byddwn yn adolygu anghenion dysgu Cymraeg Aelodau er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau presennol a newydd sy'n eu cefnogi yn eu gwaith
Targed: mis Ebrill 2015
- Byddwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o Gofnod y Trafodion, gan gynnwys cynhyrchu fersiwn cwbl ddwyieithog.
Targed: Cyflwyno adroddiad i Gomisiwn y Cynulliad erbyn haf 2015

Gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru

- Byddwn yn datblygu canllawiau a hyfforddiant i staff i'w helpu i ymateb i ohebiaeth a drafftio gohebiaeth a dogfennau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd.
Targed: o fis Medi 2014
- Byddwn yn ystyried dulliau amgen o helpu dysgwyr Cymraeg er mwyn eu galluogi i feithrin hyder i ddefnyddio eu sgiliau mewn amgylchedd gwaith.
Targed: o fis Medi 2014

Gwasanaethau ar gyfer Staff y Cynulliad

- Byddwn yn datblygu a gweithredu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog effeithiol i sicrhau bod gennym sgiliau priodol yn y sefydliad i weithredu'r Cynllun hwn ymhellach.

Targed: mis Ebrill 2015

- Byddwn yn cynnal archwiliad o sgiliau dwyieithog yr holl staff er mwyn llunio cynlluniau iaith gwasanaethau.

Targed: mis Ebrill 2015

Monitro ac adrodd

- Byddwn yn datblygu cyfres o ddulliau monitro a chydymffurfio er mwyn ein galluogi i fod yn fwy effeithiol o ran monitro cynnydd a chynllunio ar gyfer achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Targed: mis Ionawr 2015

07. Blaenoriaethau cyfunol ar gyfer 2014-15

Gwasanaethau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

- Byddwn yn adolygu anghenion dysgu Cymraeg Aelodau er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau presennol a newydd sy'n eu cefnogi yn eu gwaith
Targed: mis Ebrill 2015
- Byddwn yn integreiddio meddalwedd cyfieithu peirianyddol ac yn annog staff i'w defnyddio yn ehangach yn ein gwaith.
Targed: mis Medi 2014
- Byddwn yn ystyried ac yn treialu modelau amgen i gynorthwyo Aelodau i weithio'n ddwyieithog yn y Cyfarfod Llawn er mwyn gwella eu gallu i weithio yn eu dewis iaith.
Targed: o fis Medi 2014
- Byddwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o Gofnod y Trafodion, gan gynnwys cynhyrchu fersiwn cwbl ddwyieithog.
Targed: Cyflwyno adroddiad i Gomisiwn y Cynulliad erbyn haf 2015
- Byddwn yn darparu bathodynau "Rwy'n dysgu Cymraeg" i Aelodau a'u staff cymorth ac yn cynllunio mentrau i annog Aelodau i ymarfer a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
Targed gwreiddiol: erbyn Medi 2013.
Targed: mis Gorffennaf 2015
- Byddwn yn cymryd camau mwy rhagweithiol i ddeall anghenion iaith Aelodau'r Cynulliad a gweithio tuag at weithredu gwelliannau.
Targed: mis Gorffennaf 2015
- Byddwn yn parhau i ddilyn datblygiadau ym maes technoleg iaith, gan gynnwys technoleg cyfieithu a thechnoleg adnabod llais, ac yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau.
Targed: mis Gorffennaf 2015
- Byddwn yn cadw mewn cysylltiad â chanolfannau rhagoriaeth yng Nghymru i elwa ar y datblygiadau diweddaraf mewn technoleg iaith a chyfieithu.
Targed: mis Gorffennaf 2015
- Byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r treialon o fodelau amgen i gynorthwyo Aelodau i weithio'n ddwyieithog mewn pwyllgorau a'r adolygiad o'r gefnogaeth a ddarperir i'r pwyllgorau i ddarparu dogfennau briffio sy'n ystyried dewisiadau Aelodau'r Cynulliad o ran iaith, fformat ac amseru.
Targed: adroddiad ar y cynnydd ym mis Gorffennaf 2015

Gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru

- Byddwn yn ystyried dulliau eraill o helpu dysgwyr Cymraeg er mwyn eu galluogi i feithrin hyder i ddefnyddio eu sgiliau mewn amgylchedd gwaith.

Targed: o fis Medi 2014

- Byddwn yn datblygu'r lefel briodol o gymorth, arweiniad a hyfforddiant i staff i'w helpu i ymateb a/neu ddrafftio gohebiaeth yn Gymraeg, gan fanteisio ar arbenigedd y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi.

Targed gwreiddiol: Rhoi cynllun gweithredu ar waith erbyn mis Medi 2013.

Targed: mis Ebrill 2015

- Byddwn yn cynyddu gallu'r tîm diogelwch i groesawu'r cyhoedd i ystâd y Cynulliad yn ddwyieithog.

Targed gwreiddiol: holl staff diogelwch i feddu ar sgiliau sylfaenol i gyfarch ymwelwyr yn ddwyieithog erbyn mis Rhagfyr 2013.

Targed: mis Gorffennaf 2015

- Byddwn yn cynyddu'r gallu i gynnig gwasanaethau dwyieithog yn y caffi a'r siop.

Targed gwreiddiol: sicrhau bod gan bob aelod o staff y caffi sgiliau dwyieithog i gyfarch cwsmeriaid erbyn mis Rhagfyr 2013.

Targed: mis Gorffennaf 2015

Gwasanaethau ar gyfer Staff y Cynulliad

- Byddwn yn datblygu a gweithredu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog effeithiol i sicrhau bod gennym sgiliau priodol yn y sefydliad i weithredu'r Cynllun hwn ymhellach.

Targed: mis Ebrill 2015

- Byddwn yn cynnal archwiliad o sgiliau dwyieithog yr holl staff er mwyn llunio cynlluniau iaith gwasanaethau.

Targed: mis Ebrill 2015

- Byddwn yn darparu bathodynau "Rwy'n dysgu Cymraeg" i staff ac yn cynllunio mentrau i annog staff i ymarfer a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Targed gwreiddiol: erbyn Medi 2013.

Targed: mis Gorffennaf 2015

Monitro ac adrodd

- Byddwn yn datblygu cyfres o ddulliau monitro a chydymffurfio er mwyn ein galluogi i fod yn fwy effeithiol o ran monitro cynnydd a chynllunio ar gyfer achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Targed: mis Ionawr 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

